Cofnodion Cyfarfod o Gyngor Llawn Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir ddydd Mercher, 22 Gorffennaf, 2009 am 7.30pm

Presennol: Y Maer y Cyng Charlotte Leadbeater, y Dirprwy Faer y Cyng Chris Parish, y Cyng Colin Jenkins, y Cyng Ros Bellamy, y Cyng Hugh Towns, y Cyng Roy Davies, y Cyng Fran Murphy, y Cyng Julia Jones, Y Cyng Roy Davies,
Mr Roger Phillips (Clerc y Dref)
Mr Des Davies (y Swyddog technegol)

Ymddiheuriadau : Y Cyng Ieuan Gwyn, y Cyng Richard Wallace, y Cyng Dawn Wallace, Mr Christopher Plummer (y Swyddog cyllid)

Materion yr Heddlu. Adroddodd Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu, Roger Anthony, fod 12 o droseddau wedi eu cofnodi. Affräe oedd un o'r rhain, lle'r arestiwyd pobl, ac roedd ymchwiliadau'n parhau. Bu dau ymosodiad a phedwar mân-ladrad. Arweiniodd gwaith rhagweithiol yr heddlu at 3 o unigolion yn cael eu canfod â chanabis yn eu meddiant. Bu trafodaeth ynghylch cynnydd ym mynychder cerbydau yn mowntio palmentydd. Byddai Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu Anthony yn rhoi gwybod i'r adran briffyrdd am hyn.

Cof 118 /Gorffennaf /09 Adroddiad y Cynghorydd Sir
Dywedodd y Cynghorydd Sir Ieuan Jones fod CSC wedi cau lle chwarae Maes y Farchnad o ganlyniad i fandaliaeth barhaus a arweiniodd at bryderon iechyd a diogelwch. Fe'i caewyd er gwaethaf yr atgyweiriadau a wnaethpwyd yr haf diwethaf. Nid oes gan CSC gyllid i amnewid cyfarpar. Dywedodd y Cyng Jones y byddai CSC yn ymgynghori â Chynghorau Tref a Chymuned yn yr Hydref ynghylch rheoli parciau a mannau agored yn y dyfodol.
Dywedodd y CS Jones y byddai'n croesawu barn a sylwadau'r Cyngor Tref ynghylch cynigion drafft am ddatblygiad preswyl yn Chwarter Gogleddol y Dref.

Cof 119/ Gorffennaf / 09 Cofnodion Blaenorol
Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion o Gyfarfod o'r Cyngor Llawn a gynhaliwyd yn Siambr Neuadd y Sir ddydd Mercher, 24 Mehefin, 2009 yn gofnod cywir gyda'r newid canlynol:-
Cof 96/Mehefin / 09 newid "ni eiliwyd" i "eiliwyd gan y Cyng Dawn Wallace". Aeth y cynnig hwn i bleidlais a gwrthodwyd y cynnig gan 5 pleidlais i 4 o blaid cadw'r ardd.
Cynigwyd gan y Cyng Ros Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng Chris Parish. Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion Cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr Neuadd y Sir ddydd Mercher, 8 Gorffennaf, 2009 yn gofnod cywir gan argymell eu derbyn. Cynigwyd gan y Cyng Roy Davies ac eiliwyd gan y Cyng Edward Thomas. Roedd pawb o blaid. Darllenwyd a chadarnhawyd Cofnodion Cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd yn Siambr Neuadd y Sir ddydd Mercher, Gorffennaf 8, 2009 yn gofnod cywir gan argymell eu derbyn. Cynigwyd gan y Cyng Chris Parish ac eiliwyd gan y Cyng Ros Bellamy. Roedd pawb o blaid.

Cof 120/ Gorffennaf / 09 Materion yn codi o gyfarfodydd blaenorol

Parth. Cof 90 / Mehefin / 09. Adroddwyd bod CSC wedi cael gwared â'r goeden a oedd yn tyfu o'r palmant ar hyd y Cilgant.

Parth. Cof 92 / Mehefin / 09. Roedd y Cyng Ros Bellamy wedi cysylltu â threfnwyr Gwobrau Pentref y Flwyddyn, a dywedasant y byddai'r canlyniadau yn cael eu cyhoeddi yn ystod wythnos olaf Gorffennaf.

Parth. Cof 109 / Gorffennaf / 09. Nid oedd Mr John McEvoy Rheolwr Traffig CSC yn gallu dod i gyfarfod nesaf y Cyngor ond byddai'n barod i gwrdd â chynrychiolwyr o'r Cyngor i drafod parcio i breswylwyr. Cytunwyd y byddai'r Cyng Colin Jenkins a'r Cyng Edward Thomas yn cwrdd â Mr McEvoy.

Parth. Cof 117 / Mehefin / 09. Dywedodd y Cyng Edward Thomas mai £809.84 fyddai pris y fainc a thua £200 fyddai pris y plac. Gan y byddai'n rhaid gosod y fainc ar sylfaen goncrid barod, gofynnwyd i'r Swyddog Technegol gael y costiadau erbyn cyfarfod Cyllid mis Medi.

Cof 121/ Gorffennaf / 09 Gohebiaeth y mae'n rhaid ei hateb

1. Trevor Sage, Swyddog CSC yn gofyn am gadarnhad o argymhellion y Cyngor ynglŷn â rheoli traffig wrth Adeiladau'r Banciau. Byddai'r Clerc yn ateb gan ddweud bod y Cyngor yn dymuno gweld gwaharddiad llwyr ar hyd Adeiladau'r Banciau, hynny yw, dim aros/llwytho/dadlwytho fel y dywedwyd yn y cyfarfod safle.
2. Cais Cynllunio CSC E/21384. Amrywiad ar amod Rhif 2 o E/10697. Cynigwyd gan y Cyng Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng Edward Thomas y dylid argymell cadw llechen Gymreig yn ddefnydd ar gyfer y to. Cafwyd 6 pleidlais dros y cynigiad, 2 pleidlais yn erbyn ac 1 ymatal. Derbyniwyd y cynnig hwn.
3. Holiadur DEFRA. Cytunwyd y dylid gofyn i'r Cyng Dawn Wallace gwblhau'r ddogfen gan mai hi yw Cynghorydd Monitro'r Amgylchedd.
4. Cais Cynllunio CSC i reoli coed ym Mharc Pencrug. Cynigodd y Cyng Roy Davies y dylid cymeradwyo hyn, eiliwyd gan y Cyng Fran Murphy. Dylid mynegi pryder hefyd am y diffyg gofal gan y datblygwyr o ran rheoli coed yn y gorffennol.
5. Datblygiad Preswyl Chwarter Gogleddol CSC - Papurau ymgynghori. Cytunwyd i gynnal Cyfarfod Arbennig i drafod y cynigion ddydd Mercher, 29 Gorffennaf, am 7.30pm i'r Cynghorwyr gyda'r CS Ieuan Jones yn cael gwahoddiad i ddod am 8.30pm.
6. Rheolwr Cynorthwyol Parciau CSC Gerwyn Thomas, yn amlinellu'r angen am bartneriaeth i gynorthwyo â'r costau o adnewyddu gatiau hanesyddol parc Penlan. Roedd prosiect Tywi Afon yr Oesoedd wedi addo rhoi £8,000 tuag at y costau ac roedd CSC yn gofyn i'r Cyngor Tref ariannu 50% o'r £9,000 sy'n weddill. Cynigodd y Cyng Hugh Towns y dylai'r cynnig cyfan gael ei ystyried o safbwynt rhagolygon cyllid y Cyngor. Eiliwyd gan y Cyng Fran Murphy. Roedd pawb o blaid.

   Cynigodd y Cyng Roy Davies y dylid ystyried y mater yn y cyfarfod Cyllid nesaf i'w gynnal ddydd Mercher, 9 Medi, 2009. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â CSC i holi a allai'r Cyngor Tref dalu hanner y swm yn y flwyddyn ariannol hon a'r gweddill y flwyddyn nesaf. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng Hugh Towns. Roedd pawb o blaid.

7. Mr Barry Dwyer. Llythyr i gwyno am ddiffyg arwyddion i gyfeirio pobl rhwng yr orsaf drenau a chanol y Dref. Cytunwyd y dylai'r Clerc gysylltu ag adran Briffyrdd CSC i ofyn iddynt godi'r arwyddion hyn cyn gynted â phosib. Copi i'w anfon at Mr Keith Towler, sef y cynrychiolydd HOWLTA ar gyfer yr orsaf.

Cof 122 / Gorffennaf / 09 Gohebiaeth er gwybodaeth

1. Adroddiad Blynyddol Ombwdsman 2008/9. Nodwyd.
2. Un Llais Cymru – Rhaglen Hyfforddi Genedlaethol. Nodwyd.
3. Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed parth Phil Wait. Nodwyd.
4. Chwarae i Gymru Llywodraeth Cynulliad Cymru. Nodwyd.
5. Eifion Bowen CSC cydnabyddiaeth parth gohebiaeth. Nodwyd.
6. Clwb Camera Dyffryn Tywi - diolch am gael defnyddio'r siambr ar gyfer yr arddangosfa flynyddol.

Cof 123 / Gorffennaf /09 Materion Ariannol.

1. Cyfrifon i'w Talu

Morgan & Morgan (Inc argraffydd)	£ 10.67
Orchardweb (diweddaru'r wefan)	£ 110.00

Penderfynwyd talu'r rhain. Cynigwyd gan y Cyng Chris Parish ac eiliwyd gan y Cyng Ros Bellamy. Roedd pawb o blaid.

Cof 124 / Gorffennaf / 09 Adroddiad y Swyddog Technegol.

Dosbarthodd y Swyddog Technegol adroddiad cynhwysfawr i'r Cyngor ar bob mater technegol.
Dywedodd Mr Davies fod nifer o arwyddion llwybrau troed ar goll. Cynigwyd gan y Cyng Edward Thomas ac eiliwyd gan y Cyng Ros Bellamy y dylai'r Clerc ysgrifennu at CSC i ofyn iddynt adfer yr arwyddion hyn. Roedd pawb o blaid. Mynegodd Mr Davies bryder ynghylch hyd y cyfnod yr oedd y baneri i'w harddangos dros yr haf. Cynigwyd gan y Cyng Edward Thomas ac eiliwyd gan y Cyng Hugh Towns y dylid tynnu'r baneri lawr, yn fesur diogelwch. Roedd pawb o blaid.

Cof 125 /Gorffennaf / 09 Llefydd Chwarae Plant a Hamdden
Cytunwyd gohirio'r eitem hon nes yr hydref i ystyried sefydlu gweithgor .

Cof 126 / Gorffennaf/ 09 Adroddiad y Maer.
Rhoddodd y Cyng Charlotte Leadbeater restr o'r achlysuron a fynychwyd ar ran y Cyngor yn ystod y mis. Dymunodd gofnodi diolch y Cyngor i'r Cyng Julia Jones am drefnu Gŵyl Gerddoriaeth mor llwyddiannus.

Cof 127 / Gorffennaf / 09 Adroddiadau Eraill

i) Prosiect Drysau Agored.
Soniodd y Cyng Roy Davies am gytundeb yr Ymddiriedolaeth Ddinesig i weithio gyda'r Cyngor ar y digwyddiad hwn ddiwedd mis Medi. Byddai'r Ymddiriedolaeth Ddinesig yn talu am yr yswiriant atebolrwydd cyhoeddus.
ii) Prosiect Gardd Gymunedol.

Dywedodd y Cyng Roy Davies y byddai'n cwrdd â Mr David Rice ddiwedd yr wythnos i drafod cael gwared â'r coed ar y rhandir.

Cof 128 / Gorffennaf / 09 Digwyddiadau'r Haf ym Mharc Penlan

Arweiniodd y Maer drafodaeth gwerthuso llwyddiant Miri yn y parc. Roedd yr adborth gan bawb a fynychodd yn gadarnhaol iawn. Cyflwynwyd y treuliau canlynol:-
Circus Dayze £200
Taflenni Hysbysebu Dwyieithog £ 250
Posteri £20
Band Arian Porth Tywyn £400
Llogi Byrddau £50
Strimio danadl poethion yn y cae cyfagos £100
Dyfarnwyd y gwobrau gwisgoedd canlynol Cyntaf £50, Ail £ 30, Trydydd £20. Unigol £10
Argymhellodd yr is-grŵp a drefnodd y digwyddiad y dylid rhoi rhoddion i'r canlynol am eu cymorth a'u cyfranogiad :-
Ambiwlans Sant Ioan £50
Cantorion Teilo Sant £50
Côr San Teilo £50
Ysgol Bale £50
Ysgol Gynradd Llandeilo £50
Cynigodd y Cyng Fran Murphy y dylid awdurdodi'r rhoddion hyn. Eiliwyd gan y Cyng Ros Bellamy. Roedd pawb o blaid.
Dywedodd y Maer ei bod yn gobeithio trefnu digwyddiad arall yn yr haf gyda chyngerdd jas gan y *Memphis 7*. Byddai manylion am y digwyddiad hwn yn cael eu dosbarthu cyn gynted a bydd y trefniadau wedi eu cadarnhau.

Cof 129 /Gorffennaf /09 Nid oedd unrhyw eitemau o fusnes sydd oherwydd amgylchiadau arbennig yn ôl y Cadeirydd yn haeddu sylw brys yn unol ag adran 100 B (4)(B) Deddf Llywodraeth Leol 1972

Daeth y cyfarfod i ben am 10.00pm